**Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd**

# Ffydd mewn Tai

**Dydd Mercher 20 Hydref 2021 rhwng 12.00 - 13.15**

**Ar-lein ar Zoom**

**Yn bresennol:**

1. Adrian Allabarton
2. Ainsley Griffiths, yr Eglwys yng Nghymru
3. Altaf Hussain AS
4. Andrea Adams, Llywodraeth Cymru (Sylwedydd)
5. Andrew Misell, Alcohol Change UK
6. Bonnie Navarra, Cyfiawnder Tai Cymru (Llefarydd)
7. Carys Moseley, Eglwys Bresbyteraidd Cymru
8. Christine Abbas, Cyngor Baha'i Cymru
9. Curtis Shea, Swyddfa Darren Millar AS
10. Darren Millar AS (Cadeirydd)
11. David Emery, Byddin yr Iachawdwriaeth a Chaplan y Senedd
12. Dr Maryyum Mehmood, Prifysgol Birmingham
13. Gareth Davies AS
14. Gethin Rhys, Cytûn
15. Jane Dodds AS
16. Jim Stewart (Cofnodwr)
17. Joel James AS
18. John Davies
19. Lee Gonzales, Swyddfa Joel James AS
20. Mike Hedges AS
21. Molly Conrad, Swyddog Partneriaethau a Materion Cyhoeddus yr Eglwys Gatholig
22. Nathan Sadler, Cynghrair Efengylaidd Cymru
23. Peredur Owen Griffiths AS
24. Peter Harrison, Byddin Prydain
25. Yr Athro Andrew Davies, Prifysgol Birmingham
26. Russell George AS
27. Sam Rowlands AS
28. Sarah Jones, yr Eglwys yng Nghymru

**Ymddiheuriadau:**

1. Esgob June Osbourne, yr Eglwys yng Nghymru
2. David-Lewis Barker, yr Eglwys Gatholig yng Nghymru
3. Kate McColgan, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru

4. Stephen Lodwick, Caplan Byddin Prydain

**Cofnodion:**

1. Dechreuodd Darren Millar AS y cyfarfod, croesawodd bawb a rhoddodd ymddiheuriadau. Llongyfarchodd Bonnie Navarra, y siaradwr gwadd, ar ei phriodas ddiweddar.

2. Cyflwynodd Darren Bonnie Navarra, Cyfarwyddwr Cyfiawnder Tai Cymru, a roddodd gyflwyniad ar eu gwaith yn dilyn hynny:

**Cefnogi pobl sydd ag anghenion tai drwy gydol y pandemig**

Pan ymunodd Bonnie â sefydliad Cyfiawnder Tai Cymru tua’r adeg pan ddechreuodd pandemig COVID-19, y prif fodel gweithredu ar gyfer eu gwaith yng Nghymru oedd y llochesi nos. Gyda chanllawiau iechyd cyhoeddus a chanllawiau Llywodraeth Cymru, penderfynwyd nad oedd y llochesi nos bellach yn opsiynau ymarferol ar gyfer lletya pobl sy'n profi digartrefedd.

Bu'n rhaid i Bonnie weithio'n gyflym iawn gyda 600 o wirfoddolwyr eglwys Cyfiawnder Tai Cymru ledled Cymru i symud eu gwasanaethau i fod yn fwy ataliol ac i gefnogi Llywodraeth Cymru a'i chamau i symud pobl i lety brys mwy addas. Canmolodd Bonnie allu'r cymunedau ffydd i addasu eu dulliau yn ystod y pandemig a dywedodd fod y Ganolfan Ymchwil i Effaith Digartrefedd wedi cynhyrchu adroddiad a dynnodd sylw at allu grwpiau ffydd yn y DU i addasu yn ystod yr amser hwn. Yn yr adroddiad hwn, roedd gwasanaethau statudol yn cydnabod y buddion a ddaeth o ganlyniad i grwpiau ffydd yn ystod amser cymhleth COVID-19. Tynnwyd sylw at eu gallu i addasu a’u hystwythder wrth gysylltu pobl â gwasanaethau a bwyd.

**Ffydd mewn Tai Fforddiadwy**

Rhan hanfodol o roi terfyn ar ddigartrefedd yw'r cyflenwad tai. Mae eglwysi yn berchen ar lawer o eiddo neu dir diffaith ac mae Cyfiawnder Tai Cymru yn gweithio gyda darparwyr tai ledled Cymru mewn sefyllfaoedd pan fydd eglwysi am gadw'r eiddo ar gyfer y gymuned, gan weithio gydag eglwysi i'w helpu i'w droi yn ôl yn dai cymdeithasol.

Mae yna faterion dadleuol ynghylch eiddo sy'n cael ei werthu i’w ddefnyddio fel ail gartrefi neu i brynwyr o'r tu allan i'r ardal. Mae Cyfiawnder Tai Cymru yn gweithio gydag eglwysi sydd eisiau darparu tai fforddiadwy, ac yn gweithio gyda darparwyr er mwyn sicrhau bod tai sy’n wirioneddol fforddiadwy yn cael eu hadeiladu ar gyfer trigolion lleol. Ar hyn o bryd mae Cyfiawnder Tai Cymru yn gweithio gyda 21 o'r 22 awdurdod lleol. Er bod Cyfiawnder Tai Cymru yn eithaf bach, maent yn datblygu cryn dipyn o unedau ac mae’r rhain yn cymryd amser hir i’w gwneud o’r cam pan fydd eglwys yn dod atynt am y tro cyntaf i’r cam pan fydd y tai wedi’u hadeiladu a’r allweddi’n cael eu trosglwyddo.

**Gweithio gyda cheiswyr lloches**

Roedd Bonnie eisiau gwneud rhywbeth a oedd yn fwy ac yn fwy cynaliadwy felly, ynghyd â sefydliadau eraill, gwnaeth gais i Comic Relief, ac er bod y broses o sicrhau'r cyllid wedi cymryd blwyddyn, cafodd y glymblaid £600,000 yn ddiweddar. Roedd hwn yn grant gan Change Makers i weithio gyda'r sefydliadau eraill (Tai Pawb, Oasis, y Wallich, a Chyngor Ffoaduriaid Cymru) yng Nghymru i ddatblygu llwybr llety i geiswyr lloches, gan sicrhau eu bod yn cael llety ac yn gweithio tuag at gael statws sefydlog.

3. Yna cadeiriwyd amser trafod gan Darren gyda'r cyfraniadau a ganlyn gan y rhai a oedd yn bresennol:

Cododd **Mike Hedges AS** gwestiwn am eglwys ddiffaith yn ei etholaeth yn Nwyrain Abertawe.

Dywedodd **Bonnie** ei bod yn gyfarwydd iawn ag eglwysi gwag yn Abertawe, yn ogystal ag mewn rhannau eraill o Gymru. Hoffai i Lywodraeth Cymru eu cefnogi i sicrhau atebion i'r rhain gan nad oes gan awdurdodau lleol y capasiti i roi sylw iddynt. Yn aml mae yna faterion cymhleth sy'n gysylltiedig: weithiau nid yw pobl yn gwybod pwy sy'n berchen ar yr eiddo - efallai bod datblygwr preifat wedi ei brynu, ond yna mae'n cael anawsterau gyda cherrig beddi neu glymog Japan. Mae gan Bonnie gysylltiadau da iawn ag eglwysi ledled Cymru ond mae'r eglwysi segur hyn yn aml yn safleoedd eithriadol o anodd eu datgloi oherwydd bod gan bob un eu cymhlethdodau eu hunain. Fodd bynnag, mae Cyfiawnder Tai Cymru mewn sefyllfa dda iawn i wneud y gwaith ond byddent yn elwa o gyllid treftadaeth neu gyllid adfywio gan Lywodraeth Cymru. Dywed Bonnie fod rhywfaint o arian ar gael ond nid yw'n ymddangos bod tai fforddiadwy yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ond does dim amau eu bod yn brif flaenoriaeth i'r gymuned ei hun. Yn aml mae'r eiddo hwn wrth wraidd cymuned ac yn agos at amwynderau felly maent yn addas iawn i'w defnyddio fel tai fforddiadwy.

**Mae Sam Rowlands AS** yn aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn y Senedd. Soniodd am sut yr oedd iaith mewn perthynas â thai *addas* bellach yn cael ei defnyddio yn ogystal â thai fforddiadwy. A yw *tai addas* yn ddisgrifiad y gallai Cyfiawnder Tai Cymru ei ddefnyddio?

Cytunodd **Bonnie'n** llawn a dywedodd fod angen rhoi pwysau yn gyson ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cynlluniau ardal leol yn briodol i anghenion y gymuned. Ym marn Cyfiawnder Tai Cymru, er mwyn sicrhau eu bod nhw eu hunain yn gwneud hynny, maent yn gweithio gydag 8 landlord cymdeithasol allweddol ledled Cymru y mae eu gwerthoedd yn cyfateb i'w rhai nhw (e.e. i atal troi allan, darparu rhent isel a chynnal asedau cymunedol).

**Dywedodd Sam Rowlands AS** mai un peth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno drwy'r pandemig yw dileu blaenoriaethu yn ôl angen. Er efallai fod hyn yn swnio'n dda, mae'n gwneud bywyd yn anodd i bobl y mae'n ymddangos bod ganddynt anghenion mwy sylweddol nag eraill o ran gallu cael mynediad at dai. Yn sicr, mae angen i wleidyddion gadw llygad ar hynny er mwyn sicrhau bod y rhai sydd angen tai yn gallu gwneud hynny.

Dywedodd **Lee Gonzales (swyddfa Joel James AS)** fod un o bob pedwar o bobl a gafodd lety yn ystod y cyfnod clo cyntaf bellach wedi mynd yn ôl i'r stryd. A allai Bonnie roi sylwadau ar yr hyn y mae Cyfiawnder Tai Cymru wedi'i wneud yn yr achosion hyn a beth arall y gellir ei wneud yn y sefyllfaoedd hyn?

Cytunodd **Bonnie** fod nifer fawr o bobl a gafodd lety i ddechrau bellach wedi dychwelyd i gysgu ar y stryd. Fodd bynnag, mae nifer fawr o bobl yn parhau i gael eu lletya ond sydd, oherwydd trawma a chymhlethdodau, yn dibynnu ar sylweddau ac felly byddant yn dychwelyd i'r stryd yn ystod y dydd gan fod pobl bellach yn mynd o le i le a gallant ofyn iddynt am arian. Nid yw Bonnie yn credu bod y ffigur mor uchel â'r un o bob pedwar sy’n cael ei ddisgrifio gan y bydd rhai yn dychwelyd i’w llety yn y nos. Fodd bynnag, mae'r cymorth a roddir gan Gyfiawnder Tai Cymru yn paru gwirfoddolwyr o gymunedau'r unigolion gyda'r unigolion sy'n profi digartrefedd neu’n cysgu ar y stryd i ddod o hyd i eiddo; ac yn hollbwysig, mae'r person hwnnw'n aros gyda’r gwirfoddolwr am o leiaf 6 mis.

**Gofynnodd Christine Abbas (Cyngor Baha'i Cymru)** i Bonnie esbonio rôl gwirfoddolwyr sy’n lletya a gofynnodd hefyd pam ein bod bellach yn gweld digartrefedd mewn trefi bach yng Nghymru yn ogystal ag yn y dinasoedd.

Dywedodd **Bonnie** mai gwirfoddolwyr sy’n lletya yw pobl sy’n agor ystafell sbâr yn eu tŷ i helpu ceisiwr lloches nad yw’n gallu cael mynediad at fudd-daliadau neu waith tra bod ei gais am loches yn cael ei brosesu.

Dywedodd fod yna gysylltiad arwyddocaol rhwng oedran cynnar a thrawma oedolion a'r tebygolrwydd o brofi digartrefedd yn ystod eich oes. I rai pobl, os yw trawma wedi digwydd yn y cartref (fel trais gan riant, carcharu, defnyddio cyffuriau, trais yn y cartref), nid yw'r cartref bob amser yn lle diogel iddynt ac felly, i rai pobl, efallai na fydd y llety a gynigir iddynt yn addas ar eu cyfer ac efallai na fyddant yn ystyried bod ystafell gaeedig mewn tŷ yn ddiogel ychwaith. Mae pobl sydd wedi profi cryn dipyn o drawma yn eu bywydau yn tueddu i fod yn fwy dibynnol ar sylweddau ac mae hynny’n gwbl ddealladwy.

Gofynnodd **Darren Millar AS** a oes unrhyw beth y gall aelodau’r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd ei wneud i hyrwyddo’r gwirfoddoli yr oedd Bonnie yn siarad amdano.

Dywedodd **Gethin Rhys (Cytûn ac aelod o Grŵp Cynghori Cyfiawnder Tai Cymru)** mai Cyfiawnder Tai Cymru yw asiantaeth yr eglwysi sy’n gyfrifol am wneud hyn felly os oes unrhyw un am wirfoddoli, ewch yn syth atynt. O ran ffoaduriaid Afghanistan, mae Gethin yn deall nad yw Llywodraeth Cymru yn chwilio am gynigion o ystafelloedd ar hyn o bryd ond maent yn chwilio am dai teuluol ac felly os oes gan unrhyw un gartref teuluol yr hoffent ei logi, byddai'r awdurdod lleol yn falch iawn o glywed gennych.

Gofynnodd **Carys Mosely (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)** am ddigartrefedd cudd neu anweledig mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd mai'r eglwys yn aml yw'r unig adeilad cymunedol yn yr ardaloedd gwledig hyn ac felly os caiff eglwys ei throi'n dŷ fforddiadwy, gall hyn arwain at sefyllfa anodd yn y gymuned sy’n cael ei gadael heb le cymunedol. Gofynnodd Carys hefyd am bobl sy’n dod allan o'r carchar.

Dywedodd **Bonnie**, mewn cymunedau gwledig, fod pobl sy'n profi digartrefedd yn aml yn gudd, a byddant yn aros yn eu car, mewn lloches, neu ar soffa rhywun. Ond mae'n codi'r cwestiwn o gynyddu'r cyflenwad o opsiynau tai yn yr ardaloedd hynny. Dyna pam ei bod mor hanfodol troi'r eglwysi hynny – os ydynt yn mynd i fynd yn ddiffaith – yn dai fforddiadwy i bobl yn y gymuned honno. Yr hyn y gallwn ei wneud gyda’r cyfleoedd hyn yw gweithio gyda'r

darparwr tai i wneud yn siŵr, os mai'r eglwys yw'r unig le a rennir yn y gymuned honno a'r prif ased, y gellir cadw rhyw ardal o fewn yr adeilad hwnnw ar gyfer y gymuned honno. Mae hynny'n bwysig iawn i ni hefyd felly mae rhai o'r addasiadau a'r datblygiadau yr ydym wedi'u gwneud yn y gorffennol mewn trefi a dinasoedd wedi cadw lle ar gyfer pobl sydd am weddïo neu ar gyfer grwpiau cymunedol.

Rydym yn cefnogi pobl sy'n dod allan o'r carchar ond mae hynny drwy atgyfeiriadau gan awdurdodau lleol i sicrhau nad yw eu hanghenion yn rhy gymhleth i'n gwirfoddolwyr oherwydd os oes unrhyw fygythiad o drais iddyn nhw gan eraill, ni fyddai hynny'n addas ar gyfer y rhaglen wirfoddoli.

Dywedodd **David Emery (Byddin yr Iachawdwriaeth a Chaplan y Senedd)** mai holl bwynt y ddalfa yw ceisio sefydlogi unigolion. Mae rôl enfawr gan Gaplaniaid mewn carchardai i helpu i sefydlogi pobl mewn sawl ffordd. Pan fydd pobl yn dod allan o'r carchar, maent yn aml yn cael eu gadael i wneud fel y mynnant. Mae ganddynt gefnogaeth statudol ond nid yw hyn bob amser yn cael ei derbyn. Gall cymunedau ffydd, ar y llaw arall, gynorthwyo drwy fentrau fel *gofalu am gyn-droseddwyr* a *chaplaniaeth gymunedol* neu gyrff megis Prison Fellowship. Mae angen i ni hefyd gydnabod y *cyfraniad ychwanegol* a wneir gan grwpiau ffydd nad yw cyrff statudol na chyrff gwirfoddol eraill yn ei wneud. Yn aml iawn mae'r cyfraniad ychwanegol hwn yn allweddol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned.

Esboniodd **Molly Conrad (yr Eglwys Gatholig)** fod gwaith yr Eglwys Gatholig yn y maes hwn yn aml yn digwydd mwy ar lefel plwyfol neu esgobaethol gan mai pobl yn eu plwyfi sy'n adnabod pobl yn well na neb arall. Mae gan yr Eglwys Gatholig asiantaeth genedlaethol o'r enw Caritas Social Action Network.

Gofynnodd **Altaf Hussain AS** am ddigartrefedd a dyled.

Dywedodd **Bonnie** fod Cyfiawnder Tai Cymru yn aml yn canfod nad yw pobl sy'n profi digartrefedd yn cario maint sylweddol o ddyled â nhw gan nad ydynt wedi cael cyfle i gronni dyled. Ôl-ddyledion rhent yw'r brif ddyled sydd ganddynt yn aml, ac mae Cyfiawnder Tai Cymru yn hyfforddi gwirfoddolwyr i helpu gyda hynny, felly bydd y gwirfoddolwyr yn aml yn cwrdd ag asiantaethau budd-daliadau a darparwyr tai.

Y ffordd orau i bobl oresgyn dibyniaeth ar sylweddau yw trwy fod yn gysylltiedig â chymuned a chael tŷ i fyw ynddo.

Mynegodd **Ainsley Griffiths (yr Eglwys yng Nghymru)** ei edmygedd o waith Cyfiawnder Tai Cymru. Gofynnodd sut yr oeddent fel sefydliad yn gallu galw am gyfiawnder mewn ffordd amlwg, a dwyn, er enghraifft, llywodraethau neu awdurdodau lleol i gyfrif, a sut mae sylfaen Gristnogol Cyfiawnder Tai Cymru yn cyfrannu at hynny, os o gwbl.

Dywedodd Bonnie mai enghraifft dda o hynny fyddai prosiect Seeking Sanctuary Cyfiawnder Tai Cymru gyda cheiswyr lloches. Er bod deddfwriaeth mewnfudo yn aros gyda'r Swyddfa Gartref, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n dweud bod yn rhaid inni wneud penderfyniadau sy'n gydweithredol, yn hirdymor, ac yn seiliedig ar bobl sydd â phrofiad byw. Er hynny, nid yw'r ffordd y mae cymorth a chyllid yn

cael eu gweinyddu ar gyfer y rhai sy’n ceisio lloches yn cydnabod deddfwriaeth Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae Bonnie yn deall dadl Gweinidog Llywodraeth Cymru mai'r rheswm am hyn yw'r setliad gan y llywodraeth ganolog ac mae'n deall y cylch cyllido tymor byr ond mae Cyfiawnder Tai Cymru yn ceisio herio Llywodraeth Cymru yn barhaol ynghylch cyllido elusennau bach iawn sy'n gwneud y gwaith lletya: mae'r Gweinidog wedi dweud sawl gwaith yn y Cyfarfod Llawn bod cynnal ceiswyr lloches yn flaenoriaeth ac eto dim ond £125,000 y flwyddyn a roddir i hyn.

Gofynnodd **Darren Miller AS** ym mha ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Chyfiawnder Tai Cymru. Mae'n ymddangos bod gan Gyfiawnder Tai Cymru lawer i'w gynnig o ran atebion i rai o'r heriau mawr sy’n bodoli a gallant ddarparu eu gwasanaethau am gost isel iawn. A allai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd ofyn i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Chyfiawnder Tai Cymru mewn ffordd wahanol, efallai?

Cytunodd **Bonnie** yn llawn a dywedodd y byddai Cyfiawnder Tai Cymru yn hynod ddiolchgar. Mae rhaglen adeiladu tai Cyfiawnder Tai Cymru wedi darparu’r un nifer o dai â rhaglen debyg nad yw’n defnyddio eglwysi, a llawer mwy na rhaglen arall. Ariennir Cyfiawnder Tai Cymru gan Nationwide ac maent yn cael £200,000 am dair blynedd; mae'r ddwy raglen arall a grybwyllwyd yn cael £1,000,000 a £1,500,000 yn y drefn honno, felly mae Cyfiawnder Tai Cymru yn rhad iawn.

Mae Cyfiawnder Tai Cymru yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Llywodraeth Cymru a'r cyswllt sydd gennym ond byddai'n wych cael ein cydnabod drwy fecanwaith mwy ffurfiol.

4. Camau gweithredu

Cytunodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd ar y camau a ganlyn:

I. Bydd Darren yn ysgrifennu at Weinidog Llywodraeth Cymru i ofyn:

   *A oes unrhyw ffordd y gall Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n fwy ffurfiol â Chyfiawnder Tai Cymru a bod yn bartner gyda nhw wrth ddarparu ar gyfer anghenion tai pobl Cymru?*

II. Bydd Jim Stewart yn anfon y linc Caritas gan Molly Conrad at y grŵp.

5. Clowyd y cyfarfod gan Darren a dywedodd wrth y grŵp y byddai e-bost yn cael ei anfon gyda manylion y cyfarfod nesaf ar ôl iddo gael ei gadarnhau.